# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Medi 10fed 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Arwel Davies, Geraint Jones, Rhys Jones, Gwynfryn Williams, Huw Edwards, Rhys Richards (dros Zoom), Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Catrin Roberts.

Croesawyd Huw Edwards i'w gyfarfod cyntaf.

Yn dilyn eu profedigaethau diweddar, cydymdeimlwyd a Euros Puw a'r clerc. Cydymdeimlwyd hefyd a theulu'r diweddar Islwn Owen, Cefnbodig yn dilyn eu profedigaeth anisgwyl.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Gorffennaf a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Cafwyd cadarnhad fod yr Arolygwr Priffyrdd wedi trefnu gyda'r contractwr i dorri'r gordyfiant rhwng Bryn Tirion a Frongain, Maesywaen.
ii) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi rhoi cyfarwyddyd i'r gweithlu ymchwilio i mewn i'r dŵr a oedd yn hel ar y ffordd rhwng Pentre Felin a throad Bryniau, Parc.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cwmni Pum Plwy Penllyn.
i) Trafnidiaeth Gymunedol – cais am lythyr o gefnogaeth. Cytunwyd i anfon llythyr.

b) Cyngor Gwynedd.
i) Cadarnhau cyfarwyddwyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl.
ii) Ymgynghoriad system pleidlais sengl drosglwyddadwy.
iii) Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd - Galw am Safleoedd.
iv) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd
v) Llwybrau troed – diweddariad
vi) Rhybudd gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro, Arenig 19/09/24.

c) Un Llais Cymru.
i) Canllaw ar rymoedd a pholisïau.
ii) Presenoldeb Aelodau – y Rheol 6 Mis.

d) Amrywiol.
i) Camu i'r Copa – Triathlon Y Bala, 1/9/24.
ii) Comisiynydd Heddlu a Throsedd – dweud eich dweud ar sut mae eich cymdogaeth yn cael ei phlismona.
iii) Cofeb Tryweryn – diweddariad ar waith Cyngor Gwynedd.
iv) Pen Solar – gwybodaeth am grantiau cymunedol i osod paneli solar ayyb ar adeiladau cymunedol.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**
Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-
NP5/72/89C – Gosod ffenestri a boeler newydd, gosod paneli solar a chodi twnnel polythen. Hafod y Nant, Parc.



Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

NP5/72/250G - Amrywio Amod Rhif 2 ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio NP5/72/250B. Cronfa Ddŵr Llyn Celyn,
Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.

**vi) Materion Ariannol**

a) Derbyniadau.
Derbyniwyd ail randal y Praesept - £2,250.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu –
i) Archwilio Cymru (archwiliad allanol 2021/22)
ii) Cyngor Gwynedd (archwiliad mewnol 2023/24)

c) Ceisiadau Ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan Cerebal Palsy Cymru a Chlwb Hoci Bala. Cytunwyd i gyfrannu £100 i Glwb Hoci'r Bala rwan a thrafod cais Cerebal Palsy Cymru gyda gweddill o'r ceisiadau a'r trafod ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-
i) Roedd y broblem gyda'r ffos ger mynedfa Pant Neuadd, Parc yn gwaethygu ac angen sylw.
ii) Tyllau yn y ffordd rhwng Llwyn Mawr Uchaf a Cyffdy, Parc.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Hydref 8fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….